

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y Cyfarfod:	15.06.2023
Teitl:	Adroddiad Cyfarwyddwyr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020-2021 a 2021-2022
Pwrpas yr adroddiad:	Adrodd i'r Cyngor ar berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer y flwyddyn 2020-2021 a 2021-2022 yn unol â'r fframwaith mesur Perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol
Er:	Gwybodaeth
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gydol Oes a Llesiant

CEFNDIR:

Nodir yr hyn sy'n ofynnol yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o dan y "Cod Ymarfer ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol".

Nod yr Adroddiad Blynyddol yw creu darlun cyflawn o Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion, gan ddarparu adborth sy'n fwy amserol o ran prosesau cynllunio a chyllido.

Strwythur a chynnwys

Cwblhawyd yr adroddiad gan Sian Howys, Cyfarwyddwr Statudol blaenorol Gwasanaethau Cymdeithasol cyn iddi ymddeol ym mis Hydref 2022 ac mae bellach yn cael ei gyflwyno gan Audrey Somerton Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r adroddiad yn disgrifio sut mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngheredigion wedi perfformio yn ystod y blynyddoedd (2020 – 2021 a 2021 - 2022).

Bydd yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i helpu i lywio eu gwerthusiad annibynnol o Geredigion a'u gwaith arolygu.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	Oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os nad ydych, nodwch pam	Na Nid polisi neu strategaeth yw hon
	Crynodeb:	
	Hirdymor:	
	Cydweithio:	
	Cynnwys:	
	Atal:	
	Integreiddio:	

Argymhelliad / Argymhellion:	Nodi cynnwys yr adroddiad
Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:	
Trosolwg a Chraffu:	Cyflwynwyd i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar 13 Ebrill 2023
Fframwaith Polisi:	
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	<ul style="list-style-type: none"> • Creu cymunedau gofalgwr ac iach • Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi dysgu ar bob oedran • Creu Cymunedau Cynaliadwy, Gwyrdd a Chysylltiadau Da
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim
Goblygiadau cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim
Risg(au):	Dim
Pwerau Statudol:	Mae adroddiad y Cyfarwyddwr yn ofyniad statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Dim
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Audrey Somerton Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
Swyddog Adrodd:	
Dyddiad:	01.06.2023